| | Astudiaeth Achos Camau | Camau<br>Cynllun Dysgu Cymraeg Addysg a Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar<br>Learn Welsh Scheme for Early Years Education and Childcare |
|---|---|---|

**Astudiaeth achos – Cefnogi aelodau i gael mynediad i raglen hyfforddi Camau.**

## Trosolwg o'r gwaith

Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos sut mae PACEY Cymru wedi bod yn gweithio gyda gwarchodwyr plant ledled Cymru i gefnogi eu datblygiad yn y Gymraeg drwy raglen hyfforddi Camau.

## Beth yw cefndir y gwaith hwn?

Gyda gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, mae llawer mwy o bwyslais ar gyflwyno'r Gymraeg i blant a babanod mor gynnar â phosibl er mwyn gosod y sylfeini ar gyfer eu dysgu.

Mae'r rhaglen hyfforddi Camau, a luniwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, yn cefnogi ymarferwyr yn y sector gofal plant a chwarae i ddatblygu a defnyddio mwy o'r Gymraeg gyda phlant er mwyn rhoi cychwyn da iddynt ar eu taith tuag at ddod yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

Mae PACEY Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a phartneriaid Cwlwm i ddarparu hyfforddiant Cymraeg wedi'i deilwra i'r sector. Mae cynllun Camau yn gwrs hunan-astudio ar-lein tair rhan ar Lefel Mynediad ac mae ar gael i'r sector gofal plant a chwarae ac mae wedi'i ariannu'n llawn diolch i gyllid gan Lywodraeth Cymru. Enw'r rhan gyntaf yw Mynediad 1, yr ail yw Mynediad 2, a'r drydedd yw Mynediad 3. Mae pob cwrs yn ymwneud ag 20 awr o ddysgu annibynnol. Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol hefyd wedi lansio Mynediad Gwaith Chwarae 1 yn ddiweddar, ond hyd yma nid yw aelodau PACEY wedi cael mynediad iddynt.

## Beth wnaeth PACEY Cymru?

Mae Rheolwr Prosiect a Chydlynydd Iaith a Chyfathrebu PACEY Cymru wedi mynychu cyfarfodydd rhithwir ar-lein yn rheolaidd gyda phartneriaid Cwlwm i drafod cynlluniau gwaith a thargedau er mwyn darparu'r cymorth gorau posibl i ddysgwyr ac i sicrhau bod hyfforddiant yn dylanwadu ar arfer. Roedd y cyfarfodydd yn gyfle i rannu syniadau ac arfer da gyda'i gilydd, ac i drafod materion sy'n codi ac i gydlynu negeseuon cymorth a hyrwyddo.

Roedd gan PACEY Cymru ran i'w chwarae wrth hyrwyddo'r hyfforddiant gydag aelodau PACEY. Trwy hyrwyddo'r cwrs yn barhaus, derbyniodd PACEY Cymru gyfanswm o 86 o ddarpar ddysgwyr yn mynegi eu diddordeb rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023.

Mae hyn yn cynnwys 62 ar gyfer Mynediad 1, 16 ar gyfer Mynediad 2 a 8 ar gyfer Mynediad 3, ac mae'r ffigurau hyn yn parhau i dyfu. Gofynnwyd i'r aelodau gysylltu â PACEY Cymru i fynegi eu diddordebau yn y lle cyntaf, lle byddai gofyn iddynt lenwi ffurflen gofrestru i gael mynediad i'r cwrs. Unwaith y byddai'r camau hyn wedi'u cwblhau, byddai dysgwyr wedyn yn cael mynediad i'r cwrs o'u dewis gyda'r opsiwn o gael mynediad i fersiwn gogledd neu dde Cymru o'r cwrs.

Er mwyn gwella'r dysgu ymhellach mae dysgwyr Camau wedi defnyddio gweminarau cymorth iaith Gymraeg PACEY Cymru. Mae'r sesiynau byr hyn yn addas ar gyfer y rhai sydd ag ychydig neu ddim sgiliau Cymraeg, yn ogystal â'r rhai sy'n dymuno adeiladu ar eu hyder i ddefnyddio'r iaith. Mae geirfa Gymraeg yn cael ei rhannu a'i hategu gan ddogfen sain i'w defnyddio nôl yn y lleoliad, yn canolbwyntio ar wahanol destunau neu themâu y gall dysgwyr eu defnyddio yn eu trefn ddyddiol, gan ddilyn diddordeb y plant.

Yn ogystal â hyn, mae PACEY Cymru hefyd yn darparu cymorth iaith Gymraeg un i un dros y ffôn ac e-bost y gall dysgwyr ei gyrchu o fewn eu haelodaeth PACEY.
Datblygodd PACEY Cymru hefyd amrywiaeth o adnoddau ategol y gallai dysgwyr eu cyrchu ar y platfform i wella eu dysgu ymhellach. Mapiwyd yr adnoddau hyn i'r unedau perthnasol o fewn y cwrs a'u hyrwyddo gan Gydlynwyr yr Iaith Gymraeg.

## Tystlythyr gan ddysgwr Camau – Victoria McAllister, gwarchodwr plant cofrestredig, Rhondda Cynon Taf.

Mae Victoria wedi bod yn warchodwr plant cofrestredig sefydledig ers mis Tachwedd 2007, ac mae wedi'i lleoli yn Rhondda Cynon Taf, De Cymru. Mae Victoria yn gofalu am naw o blant rhwng un a chwech oed ac yn gweithio ar ei phen ei hun.
Rheswm Victoria dros dderbyn hyfforddiant Camau oedd er mwyn gwella ei geirfa Gymraeg a Chymraeg sgyrsiol er mwyn ei galluogi i siarad mwy o Gymraeg yn ei lleoliad gwarchod plant.

Wedi cyrchu Camau Mynediad 1 a Mynediad 2, esboniodd Victoria ei bod bellach yn defnyddio'r iaith yn amlach ar gyfer Cymraeg bob dydd gyda'r plant yn ei gofal. Nod hirdymor Victoria yw darllen straeon yn hyderus i'r plant yn ei gofal trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Victoria wedi bod yn awyddus i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg a chafodd fynediad i hyfforddiant Camau am y tro cyntaf ym mis Gorffennaf 2021 lle cofrestrodd ar y cwrs Mynediad 1 ac ers hynny mae wedi parhau i dyfu ei geirfa a'i gwybodaeth, gan symud ymlaen i Camau Mynediad 2. Mae Victoria wedi cofrestru ar gyfer y cwrs Mynediad 3 yn ddiweddar, gyda'r nod o gwblhau'r 60 awr lawn o ddysgu ar gyfer y cwrs Mynediad erbyn Medi 2023.

**Hyfforddiant a chefnogaeth**

Credai Victoria bod hyfforddiant Camau yn cyd-fynd yn dda â'i diwrnod gwaith. Roedd cael mynediad rhithiol hyfforddiant, ar adeg a oedd yn gyfleus, gyda'r hyblygrwydd i weithio drwy'r unedau ar gyflymder a oedd yn gweithio iddi yn gwneud yr hyfforddiant yn hylaw. Mae'r cynnwys yn berthnasol i ddarpariaeth Victoria ac mae'r ddogfen awgrymiadau gorau, i'w lawrlwytho ar gyfer pob uned yn "ardderchog" ac yn dda i'w brintio ac yn ysgogiad gweledol yn ymarferol.

Cyngor Victoria i'r rhai sy'n ystyried dilyn yr hyfforddiant fyddai:
"Cymerwch eich amser. Argraffwch ac amlygwch ymadrodd y dydd a chreu cyfleoedd i'w ddefnyddio gyda'r plant. Peidiwch â digalonni os na allwch gofio popeth. Ymarferwch bob dydd gyda'r plant a'i wneud yn hwyl".

Cyfeiriodd Victoria at y cymorth a ddarparwyd gan PACEY Cymru fel un 'rhagorol a chyfeillgar' a'i bod yn teimlo'n dawel ei meddwl bod aelod o staff wrth law i ateb unrhyw gwestiynau.

Ar wahân i hyfforddiant Camau, mae Victoria yn mynychu llawer o ddigwyddiadau PACEY Cymru gan gynnwys gweminarau cymorth iaith Gymraeg misol. Mae pob gweminar cymorth iaith Gymraeg 30 munud o hyd yn cynnig geirfa sy'n seiliedig ar thema wahanol y gellir ei defnyddio mewn lleoliad gofal plant fel rhan o'r drefn ddyddiol. Mae hyn, yn ôl Victoria, yn rhoi yfle iddi fyfyrio ar ei hymarfer presennol a thyfu ei hyder i roi cymaint o Gymraeg â phosibl yn ei harfer.




I gydnabod yr ymrwymiad y mae aelodau wedi'i ddangos drwy gael mynediad at hyfforddiant Camau neu drwy sesiynau cymorth iaith Gymraeg PACEY Cymru, llwyddodd PACEY Cymru i ddarparu 61 pecyn adnoddau Cymraeg cynhwysfawr o lyfrau ac adnoddau gweithgaredd dwyieithog. Roedd y pecynnau hyn yn cynnwys llyfrau rhyngweithiol a synhwyraidd ar amrywiaeth o ddiddordebau cyfoes gan gynnwys byd natur, adeiladu, anifeiliaid, dinosoriaid, y tywydd, hyfforddiant toiled yn ogystal â chwedlau traddodiadol , y gall aelodau ei defnyddio i helpu i gyfoethogi'r cyfleoedd i blant ac i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg ymhellach mewn modd hwyliog a rhyngweithiol.




Mae'r ymateb i'r pecynnau hyn wedi bod yn hynod gadarnhaol ac wedi rhoi cymhelliant i'r aelodau barhau â'u dysgu drwy Camau a PACEY Cymru, a dywedwyd Victoria ei bod wrth ei bodd yn derbyn ei phecyn Cymraeg.
Aeth Victoria ymlaen i ddweud: *"Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at rannu'r adnoddau gyda'r plant".* Mae'r Llyfr bach o ganeuon adar yr ardd o ddiddordeb arbennig gan ei fod yn cysylltu â'r thema y mae'r plant wedi dangos diddordeb ynddi.

Ar ôl derbyn y pecyn ac i'w helpu i wella'i dysgu ymhellach, estynnodd Victoria allan at Gydlynydd Iaith a Chyfathrebu PACEY Cymru am adnoddau a chymorth pellach gyda chyfieithu enwau adar nad oedd wedi'u rhestru yn y llyfr. Aeth Victoria ymlaen i ddweud bod y plant wedi mwynhau dysgu'r enwau newydd ac fe'u clywyd yn ailadrodd y rhain yn eu chwarae.

Mae'r cynnydd y mae Victoria wedi'i wneud hyd yma wedi'i sylwi gan rieni ac mae llawer mwy o ffocws Cymreig o fewn y drefn ddyddiol gyda'r eirfa sydd newydd ei dysgu yn dod yn rhan annatod o ymarfer ac arferion bob dydd. Mae Victoria yn awyddus i ddangos ei bod yn gweithio tuag at ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol ond mae'n sylweddoli'r siwrnai sydd ganddi o'i blaen.

**Gwybodaeth bellach**

Am unrhyw ymholiadau, cysylltwch â PACEY Cymru ar 02920 351407 neu e-bostiwch [paceycymru@pacey.org.uk](mailto:paceycymru@pacey.org.uk)

| | | |
|---|---|---|
| | Camau Case Study | |

# Case Study – Supporting members accessing the Camau training programme.

## Overview of the work

This case study demonstrates how PACEY Cymru have been working with childminders across Wales to support their Welsh language development through the Camau training programme.

## What is the background to this work?

With Welsh Government's vision of reaching a million Welsh language speakers in Wales by 2050, there is much more emphasis on the Welsh language being introduced to children and babies as early as possible in order to set the foundations for their learning.

The Camau training programme, devised by the National Centre for Learning Welsh supports practitioners in the childcare and play sector to develop and use more of the Welsh language with children in order to give them a good start on their journey towards becoming fluent Welsh speakers.

PACEY Cymru have been working with The National Centre for Learning Welsh and Cwlwm partners to provide the childcare sector with tailor made Welsh language training. The Camau scheme is a three-part online self-study course at Entry level and has been made available to the childcare and play sector and is fully funded with thanks to Welsh Government funding. The first named Mynediad 1 (Entry 1) part two named Mynediad 2 (Entry 2), and part three named Mynediad 3 (Entry 3). Each course relates to 20 hours of independent learning. The National Centre for Learning Welsh have also recently launched Mynediad Gwaith Chwarae 1 and 2 (Playwork Entry 1 and 2), however to date these have not been accessed by members of PACEY.

| | | |
|---|---|---|
| www.clybiauplantcymru.org | https://earlyyears.wales/ | https://www.meithrin.cymru/ |
| https://www.ndna.org.uk/ | www.cwlwm.org.uk | https://www.pacey.org.uk/ |

## What did PACEY Cymru do?

PACEY Cymru's Project Manager and Language and Communications Coordinator have regularly attended online virtual meetings with Cwlwm partners to discuss work plans and targets in order to provide the best possible support for learners and to ensure training influences practice. The meetings provided an opportunity to share ideas and good practice with one another, and to discuss issues arising and to coordinate support and promotional messages.

PACEY Cymru had a role to play in promoting the training with members of PACEY. Through continuous promotion of the course, PACEY Cymru received a total of 86 potential learners expressing their interest between April 2022 and March 2023.

This includes 62 for Mynediad 1, 16 for Mynediad 2 and 8 for Mynediad 3, and these figures continue to grow. Members were asked to contact PACEY Cymru to express their interests in the first instance, where they would be asked to complete a registration form to access the course. Once these steps were complete, learners would then have access to the course of their choice with the option of accessing the north or south Wales version of the course.

To enhance the learning further Camau learners have accessed PACEY Cymru's Welsh language support webinars. These short sessions are suitable for those with little or no Welsh skills, as well for those who wish to build on their confidence to use the language. Welsh vocabulary is shared and supported with an audio document to use back in the setting, focussing on different topics or themes that learners can use in their daily routine, following the interest of the children.

In addition to this PACEY Cymru also provides 1-2-1 Welsh language support via telephone and email which learners can access within their PACEY membership.
PACEY Cymru also developed a variety of supporting resources that learners could access on the platform to further enhance their learning. These resources were mapped to the relevant units within the course and promoted by the Welsh Language Coordinators.

## Testimonial of a Camau learner – Victoria McAllister, registered childminder from Rhondda Cynon Taf.

Victoria has been an established registered childminder since November 2007, and is based in Rhondda Cynon Taf, South Wales. Victoria cares for nine children aged one to six years and works alone.

Victoria's reason for taking up the Camau training was to improve her Welsh vocabulary and conversational Welsh to enable her to speak more Welsh within her childminding setting.

Having accessed Camau Mynediad 1 and Mynediad 2, Victoria explained that she now uses the language more frequently for everyday Welsh with the children in her care. Victoria's long-term goal is to confidently read stories to the children in her care through the medium of Welsh.

Victoria has been keen to develop her Welsh language skills and first accessed the Camau training in July 2021 where she registered for the Mynediad 1 course and

has since continued to grow her vocabulary and knowledge, moving on to Camau Mynediad 2. Victoria has recently registered onto Mynediad 3, with a goal to complete the full 60 hours of learning for Mynediad by September 2023.

## Training and Support

Victoria found the Camau training fitted well with her working day. Being able to access the training remotely, at a time that was convenient with the flexibility to work through the units at a pace that worked for her made the training manageable. The content is relevant to Victoria's provision and the downloadable top tips document for each unit are "*excellent"* and good to have as print outs to help as visual prompts in practice.

Victoria's advice to those thinking of taking up the training would be:
*"Take your time. Print off and highlight a phrase a day and create opportunities to use it with the children. Don't get disheartened if you can't remember everything. Practice daily with the children and make it fun".*

Victoria referred to the support provided from PACEY Cymru as *"excellent and friendly"* and that she felt reassured that there was a member of staff on hand to answer any questions.

Aside from the Camau training, Victoria attends many PACEY Cymru events including monthly Welsh language support webinars. Each 30-minute Welsh Language support webinar offers vocabulary based on a different theme that can be used in a childcare setting as part of the daily routine. This, according to Victoria provides her with an opportunity to reflect on her current practice and grow her confidence to implement as much Welsh into her practice as possible.




To recognise the commitment that members have shown by accessing Camau training or through PACEY Cymru Welsh language support sessions, PACEY Cymru were able to provide 61 identified individuals with a comprehensive Welsh language resource pack of bilingual books and activity resources. These packs included interactive and sensory books on a range of topical interests including nature, construction, animals, dinosaurs, the weather, toilet training as well as some traditional family favourite tales, which members can use to help enhance the opportunities for children and to further develop the use of Welsh language in a fun and interactive manner.




The response to these packs has been extremely positive and has given members the motivation to continue their learning through Camau and PACEY Cymru and Victoria was said to be delighted to receive her Welsh language pack.
Victoria went on to say: "*I am very much looking forward to sharing the resources with the children.*"
The Llyfr bach o ganeuon adar yr ardd / The Little Book of Garden Bird Songs is of particular interest as it links to the theme the children have shown interest in.

Having received the pack and to help her enhance the learning further Victoria reached out to PACEY Cymru's Language and Communications Coordinator for further resources and support with translation of the names of bird names that weren't listed in the book but visited the settings garden. Victoria went on to say that the children enjoyed learning the new names and were heard repeating these in their play.
The progress in which Victoria has made has been commented by parents and there is much more of a Welsh focus within the daily routines with the newly learnt vocabulary becoming embedded in everyday routines and practice. Victoria is keen to show that she is working towards providing the Active Offer however realises the journey she has ahead of her.

**Further information**

For any queries, please contact PACEY Cymru on 02920 351407 or email paceycymru@pacey.org.uk